**LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU**

**Disgrifiad Swydd**

## ADRAN 1: MANYLION SWYDD

**Teitl Swydd:** Swyddog Cyfathrebu ac Ymgysylltu (Cyfryngau Cymdeithasol & Digidol) (Prosiect Dinas Llên)

**Cyfarwyddiaeth**: Cyfarwyddiaeth Profiad, Ymgysylltu a Phartneriaethau

**Adran:** Ymgysylltu

**Gradd**: 3

**Oriau Wythnosol**: 3 diwrnod yr wythnos (22.2 awr)

**Cyflog:** £29,691 - £34,272 pro rata

**Cytundeb:** Tymor penodol tan 31 Mawrth 2027 yn y lle cyntaf gyda phosibilrwydd o estyniad i'r flwyddyn ganlynol

**Yn adrodd i**: Rheolwr Dinas Llên

**Pwrpas cyffredinol y rôl:** I gynorthwyo yn y gwaith o hybu a hyrwyddo gwasanaethau, a gweithgareddau allanol Dinas Llen Aberystwyth - Ceredigion. Mae hyn yn cynnwys cynnal a chadw'r wefan, ymateb i ymholiadau cyhoeddus, a chynllunio a gweithredu'r strategaeth cyfryngau cymdeithasol a chyfathrebu.

## ADRAN 2: CEFNDIR Y PROSIECT

Crëwyd y Ddinas Llên newydd yn sgil cais cryf gan bartneriaeth strategol Dinas Llên. Mae'r dynodiad UNESCO yn dwyn ynghyd Aberystwyth a sir ehangach Ceredigion i ddathlu traddodiadau llenyddol yr ardal a'i sîn ddiwylliannol ddwyieithog a ffyniannus. Mae diwydiant cyhoeddi ardal Dinas Llên Aberystwyth Ceredigion wedi hen ennill ei blwyf, mae sefydliadau llenyddol o bwys cenedlaethol a rhyngwladol megis: Cyfnewidfa Lên Cymru, Cyngor Llyfrau Cymru, Llenyddiaeth Ar Draws Ffiniau, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Prifysgol Aberystwyth, Canolfan Uwchefrydiau Cymraeg a Cheltaidd a Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant wedi

ymgartrefu yma ac rydym wedi cynnal eisteddfodau cenedlaethol a gwyliau llên yma oddi ar o leiaf y 12fed Ganrif yn ogystal a bod.


Fel Partneriaeth Dinas Llên, rydym yn bwriadu defnyddio'r statws hwn fel modd i ysbrydoli, ysgogi, meithrin uchelgais a chryfhau cysylltiadau lleol a rhyngwladol mewn perthynas â chreadigrwydd, diwylliant, twristiaeth adfywiol a datblygu cynaliadwy. Yn y bôn, ein bwriad yw gwella bywyd yn y rhanbarth a sicrhau lle amlwg i Gymru drwy lenyddiaeth ar fap y byd. Fel Dinas Llên UNESCO, bydd yr ardal yn dangos sut y gall gweithgarwch diwylliannol:

- Wella llesiant i'r unigolyn ac i'r gymuned
- Cryfhau cymunedau cydlynus, dwyieithog
- Cefnogi cyfrifoldeb a gwydnwch amgylcheddol
- Cyfrannu at ddatblygiad economaidd cynhwysol a chynaliadwy
- Gwella statws rhyngwladol Cymru fel cenedl greadigol, gyfrifol yn fyd-eang

Dangosodd astudiaeth ddichonoldeb Savills yn 2023 y bydd manteision prosiect Dinas Llên UNESCO yn cynnwys: proffil a statws uwch i lenyddiaeth; mwy o gyfranogwyr; cyhoeddusrwydd mwy cydlynol; gwell rhwydweithio a chydweithio; mwy o gyfleoedd gwaith a mentrau cyfnewid i gadw pobl ifanc a chefnogi'r Gymraeg; sîn celfyddydol mwy bywiog a hynny gydol y flwyddyn; cyfleoedd am gyllid newydd; gwell llesiant a llai o unigedd. Ymhlith y manteision ychwanegol a nodwyd gan grwpiau penodol roedd: mwy o fyfyrwyr a mwy o gydweithio â sefydliadau a dinasoedd yn Rhwydwaith UNESCO; twf yr economi diwylliannol a thwristiaeth; mwy o werthiant; gwell datblygu cynaliadwy, twf ein statws rhyngwladol.

Y cam nesa yw sicrhau bod gan Dinas Llên y sylfeini gweithredol a sefydliadol cadarn sydd eu hangen i wireddu ei photensial,

## ADRAN 3: SIART TREFNIADOL



## ADRAN 4: DYLETSWYDDAU ALLWEDDOL

- Cynllunio, creu a chyflwyno cynnwys dwyieithog ar draws gwefan, cyfryngau cymdeithasol a sianeli digidol Dinas Llen, gan sicrhau cynnwys cywir, hygyrch a deniadol sy'n hyrwyddo ei weledigaeth, ei gwerthoedd a'i gweithgareddau.

- Datblygu a gweithredu cynlluniau cyfathrebu a marchnata i hyrwyddo rhaglenni, prosiectau a digwyddiadau, gan gynnwys creu cynnwys ysgrifenedig, gweledol a fideo, cydlynu ymgyrchoedd, a rheoli cylchlythyrau a chyfathrebiadau digidol.

- Arwain ar ddatblygu presenoldeb Dinas Llen ar draws llwyfannau cyfryngau cymdeithasol, gan fonitro perfformiad, gwerthuso effaith gweithgareddau a darparu adroddiadau a mewnwelediadau perthnasol.

- Datblygu a chynnal perthnasoedd effeithiol gyda'r cyfryngau, partneriaid a rhanddeiliaid, gan gydlynu ymholiadau'r wasg, paratoi deunyddiau hyrwyddo a sicrhau sylw priodol i weithgareddau'r sefydliad.

- Gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol i hyrwyddo amcanion Dinas Llen a chynyddu ei phroffil yng Nghymru ac yn rhyngwladol.

- Casglu, dadansoddi a chynnal data, cofnodion ac ystadegau perthnasol, a chynorthwyo gyda pharatoi adroddiadau, cyflwyniadau, ceisiadau cyllido ac adnoddau hyrwyddo ar gyfer partneriaid, arianwyr a rhanddeiliaid.

- Sicrhau bod holl weithgareddau cyfathrebu a marchnata yn cydymffurfio â chanllawiau brandio, safonau'r Gymraeg, gofynion hygyrchedd gwe, GDPR, hawlfraint a pholisïau perthnasol eraill.

- Cynrychioli Dinas Llen mewn cyfarfodydd, digwyddiadau a gweithgareddau hyrwyddo, a chyflawni unrhyw ddyletswyddau rhesymol eraill sy'n berthnasol i'r swydd.

*Darperir y Swydd Ddisgrifiad hon i roi amlinelliad bras i ddeiliaid swyddi o'r gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r rôl hon. Efallai y bydd y Llyfrgell yn ei gwneud yn ofynnol i ddyletswyddau eraill gael eu cyflawni nad ydynt o reidrwydd wedi'u nodi ar y Swydd Ddisgrifiad ond sy'n gymesur â graddfa’r swydd. Gellir diwygio'r Swydd Ddisgrifiad o bryd i'w gilydd o fewn cwmpas a lefel y cyfrifoldeb sy'n berthnasol i'r swydd hon.*

## ADRAN 5: CYFRIFOLDEB

- Cyfrifoldeb dros bresenoldeb a rhaglen ar gyfryngau cymdeithasol a llwyfannau cynnwys digidol
- Cyfrifoldeb dros fonitro ac adrodd ar berfformiad y gwaith ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol
- Cyfrifoldeb dros rannu cyngor ac arfer gorau i staff eraill sy'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol
- Cyfrifoldeb dros ddatblygu cynnwys fideo
- Cyfrifoldeb dros gynhyrchu a dosbarthu prif gylchlythyr
- Cyfrifoldeb dros ddelwedd ac enw da Dinas Llên mewn achlysuron cyhoeddus.
- Cyfrifoldeb dros safon a chywirdeb gwybodaeth a gyflwynir.

## ADRAN 6: CYSYLLTIADAU GYDAG ERAILL

| **Mewnol** | **Natur y cysylltiad** |
|---|---|
| Rheolwr Dinas Llen | |
| Cyfarwyddwr Profiad a Phennaeth Ymgysylltu | Cydweithio dyddiol a gweithio ar draws yn effeithiol i ddenu sylw at Dinas Llen |
| **Allanol** | Cefnogaeth weinyddol<br>. |
| Cadeirydd Dinas Llên | |
| Gweithgorau o fewn aelodaeth Dinas Llên | Trafod cyfraniad anfon cynnwys a deunyddiau hyrwyddo a marchnata. |
| Aelodau Partneriaeth Dinas Llên | Sicrhau bod y gwaith yn cael ei gyflawni yn unol â dymuniadau a safonau |
| Rhanddeiliaid penodol ee sefydliadau i gydweithio gyda nhw ar ymgyrchoedd | Bod yn rhagweithiol wrth sefydlu perthynas dda ar gyfer collabs, rhannu cynnwys a rhannu arfer da. |
| Dylunwyr a Chrewyr Cynnwys | |

## ADRAN 7: DATRYS PROBLEMAU

- Problemau amseru o ran rhaglennu'r gwaith cyfryngau cymdeithasol
- Problemau diffyg gwybodaeth ac anawsterau marchnata
- Problemau o weithio ar draws timau ac delio gyda blaenoriaethau amrywiol Dinas Llen

## ADRAN 8: PENDERFYNU

- Penderfynu ar drefn y rhaglen ar gyfer cyhoeddi ar gyfryngau cymdeithasol
- Penderfynu ar ba ddeunydd i'w ddatblygu
- Penderfynu ar y cynnwys gorau i gyrraedd cynulleidfa ddigidol
- Penderfynu ar ffurf, hyd a lled gwybodaeth i'w chyflwyno
- Penderfynu ar gynnwys y cylchlythyron

## ADRAN 9: MANYLEB PERSON

| PRIODOLEDD | HANFODOL | DYMUNOL |
|---|---|---|
| **Gwybodaeth / Addysg** | Safon addysg dda neu gymhwyster perthnasol.<br><br>Dealltwriaeth dda o egwyddorion cyfathrebu, marchnata a chreu cynnwys digidol. | Dealltwriaeth o natur cynulleidfaoedd amrywiol.<br><br>Gwybodaeth am y sector ddiwylliannol yng Nghymru<br><br>Gwybodaeth o hanes Cymru<br>• Gwybodaeth am y sector llenyddiaeth, y celfyddydau a diwylliant yng Nghymru.<br>• Gwybodaeth am hanes a diwylliant Cymru.<br>• Dealltwriaeth o GDPR, marchnata drwy ganiatâd, hawlfraint a hygyrchedd digidol.<br>• Gwybodaeth o blatfformau megis Mailchimp, Hootsuite neu systemau tebyg.<br>• Gwybodaeth o systemau rheoli cynnwys gwe megis WordPress a Squarespace. |
| **Profiad** | Cynhyrchu gyfryngau cymdeithasol mewn cyd-destun proffesiynol.<br><br>Y gallu i gyfathrebu ar lafar ac yn ysgrifenedig i safon uchel yn Gymraeg a Saesneg. | Casglu a gwerthuso data<br><br>Y gallu i drefnu gwaith yn fanwl<br><br>Y gallu i fod yn hyblyg wrth i gynlluniau newid a datblygu<br><br>Delio gyda ystod eang o unigolion a sefydliadau |

| | | |
|---|---|---|
| | Y gallu i weithio'n hyblyg a chyfrannu'n greadigol a brwdfrydig.<br><br>Hyderus yn y defnydd o'r we.<br><br>Meithrin a chynnal perthnasoedd gydag ystod eang o unigolion, grwpiau a sefydliadau.<br><br>Profiad o gynllunio a chyflwyno gweithgarwch hyrwyddo, marchnata neu ymgyrchoedd cyfathrebu. | • Gweithio gyda'r wasg a'r cyfryngau<br><br>• Profiad o reoli cronfeydd data tanysgrifwyr a llwyfannau marchnata e-bost. |
| **Sgiliau** | Sgiliau rhyngbersonol da a'r gallu i drefnu, blaenoriaethu a rheoli gwaith yn effeithiol o fewn terfynau amser tynn.<br><br>Sgiliau uchel Adobe Premiere Pro a Photoshop (neu feddalwedd safonol tebyg)<br><br>Sgiliau ffotograffiaeth<br><br>Gweithio'n annibynnol ac fel rhan o dîm<br><br>Y gallu i gyfathrebu ar lafar ac yn ysgrifenedig yn Saesneg a Chymraeg. Mae angen arnom sgiliau Cymraeg sy'n cyfateb i'r safonau a ganlyn o fewn y fframwaith ALTE:<br><br>Gwrando/siarad = 4<br>Darllen/deall = 4<br>Ysgrifennu = 4.<br>(*gweler isod) | Sgiliau Adobe After Effects |

*https://www.library.wales/fileadmin/docs_gwefan/new_structure/about_nlw/work_with_us/jobs/Fframwaith_ALTE_en.pdf